TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NPTC PA2 Ground Crop Sprayer Mounted or Trailed Level 2



**Yn gryno**Mae'r PA2 yn hyfforddi gweithredwyr i ddefnyddio chwistrellwyr mowntiedig neu lusg, sydd wedi'i osod ar feic cwad neu dractor, neu'n cael ei dynnu ganddynt.   Mae sawl gwahanol gategori cyffredinol mewn hyfforddiant plaladdwr. Unwaith y bydd gennych dystysgrif damcaniaeth PA1: gallwch yna ymgymryd ag unrhyw fodiwl arall, gan sicrhau eich bod yn gyfreithiol a diogel wrth ddefnyddio cemegion.   Mae'r gyfraith yn nodi bod rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio neu'n taenu plaladdwyr yn fasnachol gael Tystysgrif Plaladdwr ddilys er mwyn cydymffurfio â rheoliadau. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn opsiynol ac mae'n berthnasol i wirfoddolwyr, yn ogystal â staff cyflogedig a hunangyflogedig.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer……**unrhyw un sy'n gweithio mewn Amaethyddiaeth, Garddwriaeth neu'r Diwydiant Coedwigaeth   …unrhyw un sy'n gweithio mewn gweithfeydd mwyniannau, clybiau pêl-droed etc

**Cynnwys y cwrs**Wedi i chi gwblhau PA1, y modiwl damcaniaeth sylfaenol, gallwch fynd yn syth i wneud amrywiaeth o unedau ymarferol.   Bydd y cwrs PA2 yn eich hyfforddi chi i ddefnyddio

Chwistrellwr cnydau cae gyda ffroenellau hydrolig
Ymarfer gyrru'n ddiogel

Paratoi cyfarpar
Gosod a phrofi'r gyfradd daenu
Canfod namau a gwaith cynnal a chadw ar ôl defnyddio

**Gofynion Mynediad**

I gael mynediad i'r cwrs hwn, bydd angen i chi fod wedi cyflawni Cymhwysiad Plaladdwr (PA1) ac yn 16 oed neu'n hyn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**Mae hwn yn gwrs 3 diwrnod (2 ddiwrnod o hyfforddiant ac 1 diwrnod o asesu).   Bydd yr holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddarparu gan y coleg.   Byddwch yn astudio drwy ddysgu yn y dosbarth a gwaith ymarferol.   Cynhelir y cwrs yn ystod yr wythnos.